Nos Iau, 13 Mawrth 2025 – 7.30yh
Festri Salem, Penmachno

cofnodion drafft

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 13 Mawrth 2025** am 7.30, Festri Salem, Penmachno

1. Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Datganiad o fuddiant
3. Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf
4. Cyflwyniad gan Severn Wye: Cymunedau YnNi
5. Materion yn codi o'r cofnodion blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
6. Gohebiaeth
7. Adroddiad cyllidol
8. Materion cynllunio
9. Materion eraill

Presennol:
Bethan Corrigan
Dafydd Gwyndaf
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies (Is Gadeirydd)
Eryl Owain (Cadeirydd)
Geraint Thomas
Owen Davis
Wil Edwards
Dilwyn Roberts (Cynghorydd Sir)

Ymddiheuriadau:
Claire Roberts
Eifion Davies

Agorwyd y cyfarfod gan y cadeirydd.

Datganiad o fuddiant
Nid oedd unrhyw ddatganiadau

DRAFT

Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **09 Ionawr 2025** fel rhai cywir, Dylan Davies yn cynnig a Wil Edwards yn eilio.

Materion yn codi:

Toiled Cyhoeddus: Adroddwyd bod tri chwmni wedi cael cais am bris. Penderfynwyd derbyn pris Future Flooring am lloriau finyl 2.5mm

Llwybr Cyhoeddus 55 – Y Waen: Adroddwyd bod Cartrefi Conwy wedi torri'r gwrych.

Diffibrilwyr: Adroddwyd bod y clerc yn disgwyl clywed canlyniad cais am grant yn fuan.

SP Energy: Nodwyd bod y cyngor cymuned wedi cymryd rôl llawer mwy na'r disgwyl wrth gysylltu â rhanddeiliaid. Diolchwyd i'r clerc a oedd wedi bod yn gweithio dan bwysau sylweddol. Adroddwyd bod SP Energy wedi penodi contractwyr newydd.

Penderfynwyd gwneud trefniant newydd ar gyfer cysylltu ag SP Energy cyn i'r prosiect ailddechrau.

Penderfynwyd cysylltu â SP Energy a gofyn iddynt dalu'r clerc am y 75 awr o oramser di-dâl y mae wedi'i weithio yn ystod y chwe mis diwethaf.

Cyfarwyddwr Angladdau: Adroddwyd bod yr anfoneb wedi cael ei thalu.

To Stabl: Penderfynwyd cysylltu â'r cyngor sir.

Archwilio Cymru: Adroddwyd bod llythyr o gwyn wedi'i ysgrifennu ac y bydd yn cael ei anfon at Archwilio Cymru, Comisiynydd y Gymraeg ac Aelod o'r Senedd.

Gohebiaeth

Adroddwyd bod y clerc wedi derbyn mwy na 600 o negeseuon e-bost ers mis Ionawr yn ogystal â galwadau ffôn a negeseuon trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Adroddiad Cyllidol

Darparodd y Clerc restr o'r holl drafodion ariannol ers y cyfarfod diwethaf i'w dadansoddi. Cytunwyd bod popeth mewn trefn.

Materion Cynllunio

NP4/29/527 Codi un tŷ marchnad agored.

Nodwyd nad yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gallu gofyn am gytundeb adran 106 oherwydd y polisi cynllunio.

Materion eraill

Hafod Rhedwydd: Adroddwyd bod contractwyr CNC wedi bod yn gyrru cerbydau mawr dros y Migneint. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir.

Blaen-y-cwm: Penderfynwyd adrodd problem gyda phont droed i'r Cyngor Sir.

Goryrru: Penderfynwyd adrodd i'r Cyngor Sir am broblem gyrwyr goryrru ar 'Penmachno To Cwm Penmachno Road'

Cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Iau 15 Mai 2025, 7.30 yn Hwb Penmachno.

DRAFT